

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

### BIL YR HEDDLU, TROSEDDU, DEDFRYDU A'R LLYSOEDD

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mawrth 2021. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2839/publications>. Ystyrir bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer sawl cymal yn y Bil, gan gynnwys y cymalau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 22 Mawrth ac yna ar 28 Mai, pan ailgyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, a oedd yn cynnwys y Ddyletswydd Trais Difrifol. Argymhellwyd na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad.
3. Cyflwynodd y Bil y cymalau Dyletswydd Trais Difrifol, sy'n cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo cyrff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig) i gydweithio. Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pŵer cyfarwyddo. Ddydd Mercher 27 Hydref, cytunodd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar welliant i gymal 17 o'r Bil sydd nawr yn golygu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyfarwyddo awdurdod Cymreig datganoledig yng Nghymru.

### Amcan(ion) Polisi

Amcanion polisi datganoledig Llywodraeth y DU yw gwneud y wlad yn fwy diogel drwy rymuso'r heddlu a'r llysoedd i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn troseddau ac arwain system gyfiawnder deg. Mae hyn yn cynnwys rhoi dyletswyddau ar awdurdodau penodedig mewn ardal llywodraeth leol i gydweithio â'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth;

- ar gyfer yr heddlu a gweithwyr gwasanaethau brys eraill i wneud darpariaeth ynghylch cydweithio rhwng awdurdodau i atal a lleihau trais difrifol;
- ar gyfer troseddau newydd ac ar gyfer addasu troseddau presennol;
- ynghylch pwerau'r heddlu ac awdurdodau eraill at ddibenion atal, canfod ac ymchwilio i droseddau neu eu herlyn neu ar gyfer ymchwilio i faterion eraill;
- ynghylch cynnal y drefn gyhoeddus;
- ynghylch symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau; i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau gyrru;
- ynghylch rhybuddiadau;
- ynghylch rhoi mechnïaeth a remandio;
- ynghylch dedfrydu, cadw, rhyddhau, rheoli ac adsefydlu troseddwr;
- ynghylch Academiâu 16 i 19 diogel;
- ar gyfer gweithdrefnau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd, ac mewn perthynas â hwy; ac at ddibenion cysylltiedig.

## **Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

Ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a ailgyflwynwyd ("Memorandwm Rhif 1") ar gyfer y Bil gerbron Senedd Cymru ar 28 Mai 2021, mae Llywodraeth y DU wedi cynnig gwelliannau at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

I gymal 17 y cynigir gwneud y gwelliannau sydd o dan sylw yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, ond maent yn ymwneud â chymalau 9 i 22. Argymhellwyd na ddylai Senedd Cymru roi ei chydysyniad ar gyfer y cymalau hyn oherwydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, y mae Memorandwm Rhif 1 yn ymwneud ag ef, dyletswydd i ymgynghori oedd cymal 17 yn hytrach na dyletswydd i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r gwelliant i gymal 17 yn golygu bod Llywodraeth Cymru nawr wedi ei bodloni bod y Bil yn darparu amddiffyniad priodol o ran y rhyngweithio gydag awdurdodau Cymreig datganoledig a materion datganoledig eraill.

### **Gwelliannau arfaethedig i gymal 17:**

- Mae'r gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyfarwyddyd ac yn rhoi yn ei le ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyfarwyddo awdurdod Cymreig datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliant.

### **Goblygiadau ariannol**

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn.

### **Casgliad**

7. Gan fod y gwelliant i gymal 17 wedi'i sicrhau, fel y nodir uchod, rydym nawr yn argymhell y dylid rhoi cydsyniad i gymalau 9 i 22 o'r Bil (y cymalau Dyletswydd Trais Difrifol), y mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer pob un ohonynt.
8. Mae trafodaethau rhynglywodraethol yn parhau ynglŷn â gweddill y darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn argymhell na ddylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad ar eu cyfer, sef (yn y Bil fel y'i cyflwynwyd): 'criminal damage to memorials' (cymal 46), 'unauthorised encampments' (cymal 61) a chymalau 54, 55 a 60 ynglŷn â'r drefn gyhoeddus. Bydd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach yn dilyn fel y bo'n briodol, cyn y ddadl ynglŷn â'r cydsyniad deddfwriaethol.

**Jane Hutt AS**  
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**  
**Tachwedd 2021**